

Diwrnod Trosglwyddo Technoleg a TGCh blwyddyn 6 - 5/2/20

Braf oedd croesawu disgyblion blwyddyn 6 o ysgolion cynradd y dalgylch gan gynnwys campws cynradd Ysgol Bro Hyddgen, Carno, Glantwymyn, Llanbryn-mair, Dyffryn Dulas Corris, Pennal a Thalybont i'r campws uwchradd ddydd Mercher 5 Chwefror i gymryd rhan yn ein diwrnod trosglwyddo Technoleg a TGCH. Dyma ddiwrnod lle'r oedd y disgyblion yn cael y cyfle i ddylunio a chreu robot a'i raglennu i wneud cyfres o dasgau fel dilyn llinell ar drac.

Buodd y disgyblion yn gweithio'n ardderchog o fewn timau i gystadlu drwy raglennu robot i rasio o gwmpas y trac, creu cyflwyniad o'r hyn roeddynt wedi'i ddysgu a chreu wyneb i'r robot gan ddefnyddio'r torrwr laser. Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau, yn ymddwyn yn ardderchog ac yn cydweithio'n arbennig o dda o fewn y timau i gystadlu am y robot gorau. Roedd yn ddiwrnod llawn profiadau addysgiadol ac yn gyfle gwych i ddod i adnabod ei gilydd, yr athrawon a'r ysgol cyn dechrau yma fis Medi. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu blwyddyn 6 yma eto mis Mehefin.

